Y Comisiwn Etholiadol

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

# Cyfrifo arian i unedau cyfrifo

Mae'r ddogfen hon i drysoryddion unedau cyfrifo sy'n defnyddio cyfrifo arian ar gyfer eu cofnodion ariannol.

Cvnnwvs:


Cyfrifo arian – pethau sylfaenol

Categorïau cyfrifo

Set enghreifftiol o gyfrifon

# Cyfrifo arian

## I bwy mae'r ddogfen hon:

Trysoryddion unedau cyfrifo sydd eisiau gwybod mwy am gyfrifo arian

## Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- Cyfrifo arian – pethau sylfaenol
- Categorïau mewn cyfrifo arian
- Enghraifft o ddatganiad cyfrifon

## Dogfennau cysylltiedig:

- Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid
- Trosolwg o gyfrifon i drysoryddion unedau cyfrifo
- Trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol
- Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau gwleidyddol

## Ffurflenni a theclynnau ar gyfer cofnodi ac adrodd ariannol:

- Teclyn taenlen Datganiad Cyfrifon
- Templed Datganiad Cyfrifon

# Crynodeb

Os ydych yn drysorydd uned gyfrifo plaid, rydych yn gyfrifol am gadw cofnodion cywir o arian eich uned gyfrifo.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio egwyddorion cofnodi ac adrodd ar yr ariannu hwn.

I helpu deall y cyd-destun, rydym yn argymell darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'n enghraifft o ddatganiad cyfrifon.

# Cyflwyniad

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 rhaid i drysoryddion unedau cyfrifo gadw cofnodion clir a chywir o arian eu huned, gan ddangos ei sefyllfa gywir ar unrhyw adeg gyda chywirdeb rhesymol. Hefyd rhaid iddynt baratoi datganiad cyfrifon blynyddol.

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu sut rydym yn argymell eich bod yn gwneud hyn, Ar hyn o bryd nid yw'r gyfraith yn dweud fod rhaid i chi ddilyn y canllaw hwn. Fodd bynnag, os y gwnewch hynny, byddwch yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith ac arfer da.

Cyn i chi ddarllen y ddogfen hon, dylech ddarllen ein  Trosolwg o gyfrifon i drysoryddion unedau cyfrifo. Mae hwn yn amlinellu eich dyletswyddau cyffredinol, ac yn esbonio pryd mae rhaid i chi anfon eich datganiad cyfrifon blynyddol i ni.

Yn y canllaw hwn, mae Adran A y canllaw yn esbonio:

- Beth yw cyfrifo arian?
- Beth yw datganiad cyfrifon?
- Ein teclynnau a thempledi

Mae Adran B yn ganllaw i'r categorïau y dylech eu defnyddio wrth gofnodi trafodion.

Mae Adran C yn set enghreifftiol o gyfrifon wedi'u cwblhau, fel y gellwch weld yr egwyddorion yn ymarferol.

4

# Adran A - Pethau sylfaenol

Mae'r adran hon yn rhoi cyflwyniad i chi i gyfrifo arian, yr hyn y dylai datganiad cyfrifon ei gynnwys, a'r teclynnau rydym wedi'u cynhyrchu i'ch helpu.

# Beth yw cyfrifo arian?

Mae cyfrifo arian yn ddull safonol syml o gadw cofnodion ariannol cywir.

Rydych yn cofnodi trafodion pan fydd arian yn newid dwylo. A'i roi fel arall, taliadau sydd wedi eu gwneud a'u derbyn gan eich uned gyfrifo.

Pwysig

Gall trafodion fod ar ffurf arian, siec, cerdyn credyd, trosglwyddiad electronig, neu ddull arall a ddefnyddir i dalu am eitem.

## Pa drafodion sydd angen i chi eu cofnodi?

Rhaid i chi gofnodi'r trafodion canlynol:

- Gwariannau
- Taliadau
- Incwm a chostau o werthiant neu bryniant unrhyw asedau

Dylech gynnwys trafodion a wneir ar gyfer holl weithgareddau eich uned, gan gynnwys unrhyw gronfeydd ymladd neu dreuliau ymgyrch a delir gan eich uned, hyd yn oed os yr adroddir ar y rhain ar ffurflen dychweliad costau etholiad ymgeisydd. Peidiwch â chynnwys costau etholiad sydd wedi eu talu gan yr ymgeisydd, os oes rhai.

### Sut ydych chi'n trin eitemau a gafwyd am ddim neu ar ddisgownt?

Dylid hefyd cofnodi eitemau neu wasanaethau a roddir am ddim, neu ar ddisgownt nad yw'n fasnachol, ar yr adeg yr ydych yn eu derbyn.

Dylech gofnodi gwerth masnachol yr eitem neu wasanaethau, a rhoi hwn yn y categori perthnasol yn eich cyfrifon.

Er enghraifft, efallai y derbyniwch daflenni am ddim gan argraffydd sy'n cefnogi eich plaid. Dylech ofyn i'r argraffydd faint fyddai'r taflenni wedi ei gostio i gwsmeriaid eraill, a rhoi'r swm hwnnw i mewn fel cost. Bydd hefyd angen i chi gofnodi'r un swm

Mae disgownt masnachol yn ddisgownt sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel disgownt am archebion swmpus neu ostyngiadau tymhorol.

Mae disgownt nad yw'n fasnachol yn un a roddir yn arbennig ar eich cyfer chi, yn benodol, gan gyflenwyr.

fel rhodd, fel nad yw eitemau “nad ydynt yn arian” yn effeithio’n gyffredinol ar elw neu golled am y flwyddyn.

# Beth yw datganiad cyfrifon?

Mae pedair rhan i ddatganiad cyfrifon:

- Trosolwg o weithgareddau eich uned dros y flwyddyn
- Cyfrifon incwm a gwariant
- Datganiad asedau a benthyciadau
- Datganiad asedau a rhwymedigaethau/mantolen

Mae'r adran hon yn amlinellu'r math o wybodaeth y dylech ei rhoi ym mhob rhan. Efallai y bydd darllen hwn ochr yn ochr â'r enghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C yn ddefnyddiol i chi.

### Nodiadau i'r cyfrifon

Bydd angen i chi ychwanegu nodiadau ar ddiwedd y cyfrifon.

Nodiadau cyfrifo yw disgrifiadau byr o gofnodion, sy'n egluro sut y cyrhaeddwyd bob 'cyfanswm'. Fel arfer darnau o'ch cofnodion ar ffurf tabl ariannol yw'r rhain. Gallant hefyd ddangos sut y cyfrifwyd swm, neu roi esboniad naratif ynghylch y cofnod.

Gellwch weld y math o wybodaeth sydd ei hangen yn y datganiad cyfrifon enghreifftiol yn Adran C

Os y gwnewch y rhain gyntaf, gellwch eu defnyddio i gyfrifo'r cyfanswm terfynol, ac yna trosglwyddo'r cyfanswm hwnnw i'ch cyfrifon.

Mae nodiadau'n gwneud eich cofnodion ariannol yn dryloyw a haws i'w deall.

## Trosolwg o weithgareddau eich uned

Dylai hwn gynnwys:

- Crynodeb byr o weithgareddau gwleidyddol eich uned, fel unrhyw etholiadau a ymladdwyd
- Trosolwg byr o incwm a gwariant eich uned dros y flwyddyn
- Trosolwg byr o'ch asedau a rhwymedigaethau

## Cyfrifon incwm a gwariant

Mae cyfrifon incwm a gwariant yn grynodeb o'ch incwm a gwariant dros gyfnod o amser, wedi'u cofnodi dan gategorïau penodol.

Gellwch ganfod esboniad o'r categorïau hyn yn Adran B.

## Datganiad asedau a benthyciadau

Mae datganiadau asedau a benthyciadau yn dangos eich incwm a chostau dros y flwyddyn o werthiant neu bryniant unrhyw asedau sydd gennych, ac unrhyw fenthyciadau newydd neu daliadau benthyciad newydd a wnaethpwyd.

Asedau yw pethau rydych yn berchen arnynt, fel arian yn y banc, cyfrifiaduron ac eiddo.

Gellwch ganfod rhagor o wybodaeth am y categorïau y dylech eu defnyddio yn Adran B

### Pam nad yw'r taliadau hyn wedi'u cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant?

Nid yw'r taliadau hyn yn cyfrif fel incwm neu wariant oherwydd eich bod yn trosi un math o ased i un arall.

Er enghraifft, petaech wedi trosi arian (ased cyfredol) yn gyfrifiadur (ased sefydlog) mae'r gwerth yr un fath. Felly nid yw eich 'cyfanswm' o asedau wedi newid.

## Datganiad asedau a rhwymedigaethau/ Mantolen

Mae'r datganiad asedau a rhwymedigaethau yn gweithredu fel ciplun o sefyllfa ariannol gyffredinol eich plaid.

Mae'n gosod allan yr asedau rydych yn berchen arnynt, fel arian yn y banc neu gyfrifiaduron, a'r symiau sy'n ddyledus gennych, fel benthyciadau ac arian sy'n ddyledus i gyflenwyr.

Rhwymedigaethau yw pethau sy'n ddyledus gennych fel benthyciadau sydd i'w talu'n ôl.

Os y dymunwch, gellwch ddewis ychwanegu categorïau ychwanegol at y datganiad hwn i greu 'mantolen'.

Gellwch ganfod rhagor o wybodaeth ynghylch y categorïau y dylech eu defnyddio yn Adran B

# Ein teclynnau a themepledi

Gellwch ddefnyddio ein teclyn taenlen Datganiad Cyfrifon mewn Excel i'ch helpu i gadw eich cofnodion. Gellwch osod manylion trafodion drwy'r flwyddyn, fel a phryd y dymunwch, gan ddefnyddio'r categorïau a amlinellwyd yn Adran B.

Pan fo angen i chi wneud eich datganiad cyfrifon blynyddol, gall y teclyn taenlen roi ffigyrau yr ydych wedi eu mewnosod yn syth i'r templed cywir.

Gall gwblhau:

- y cyfrifon incwm a gwariant,
- y datganiad asedau a benthyciadau
- y datganiad asedau a rhwymedigaethau/mantolen

Bydd angen i chi gwblhau'r adran trosolwg a'r nodiadau.

Os yw eich incwm NEU wariant yn fwy na £25,000 am y flwyddyn, rhaid i chi anfon eich cyfrifon atom. Gellwch ganfod rhagor o wybodaeth ynghylch hyn yn ein trosolwg cyfrifon i drysoryddion unedau cyfrifo.

Pwysig

# Adran B - Categorïau ar gyfer cyfrifon arian

Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu'r categorïau o incwm a gwariant y dylech eu defnyddio wrth gadw cofnodion a pharatoi eich datganiad cyfrifon blynyddol.

Gan ddibynnu ar faint eich uned gyfrifo a'i math, ni fydd yr holl gategorïau yn berthnasol i chi.

# Categorïau cyfrif incwm a gwariant

Mae'r categorïau isod yn ymwneud â'r trafodion a gofnodir ar eich cyfrif incwm a gwariant.

Dylech ddangos ffigyrau ar gyfer y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol, fel y gwelir yn yr enghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

**Pwysig**
Dim ond os ydych wedi derbyn y tâl y dylech gofnodi eitemau ar eich cyfrif incwm.

## Incwm

Rhennir incwm i'r categorïau canlynol:

- Aelodaeth
- Cysylltiadau
- Rhoddion
- Incwm cangen
- Incwm codi arian
- Incwm buddsoddiad
- Trosglwyddiadau i mewn
- Incwm eiddo a rhent/ gwasanaethau swyddfa
- Amrywiol

Gellwch ganfod mwy am yr hyn sy'n mynd i bob categori isod.

### Beth yw aelodaeth?

Mae hwn yn cynnwys incwm a godir o'r ffioedd aelodaeth a dderbynnir gan eich uned. Gall hyn gynnwys unrhyw rai o'r canlynol:

- Ffioedd aelodaeth a dderbyniwyd ac a gadwyd o fewn yr uned
- Ffioedd aelodaeth a dderbyniwyd yn yr uned ond a drosglwyddwyd i'r blaid yn ganolog
- Ffioedd aelodaeth a gasglwyd gan y blaid yn ganolog ond a drosglwyddwyd i'ch uned

**Pwysig**

Dim ond ffioedd a dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol a ddylid eu cynnwys.

Dylai unrhyw ffioedd a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol (fel ffioedd hwyr) gael eu cario drosodd i gofnodion ariannol y flwyddyn ddilynol.

Os yw'r arian wedi ei drosglwyddo i mewn, bydd y ffordd y caiff ei gofnodi'n dibynnu ar p'un a yw'n *uniongyrchol* ymwneud â ffioedd aelodaeth. Os y gellir ei ddynodi fel ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â ffioedd aelodaeth:

- Cofnodwch ef dan 'aelodaeth', ac
- Ei ddynodi fel aelodaeth ar y nodyn cyfrifo

Os na ellir ei ddynodi fel ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â ffioedd aelodaeth

- Cofnodwch ef dan 'trosglwyddiadau i mewn', a
- Rhowch 'incwm aelodaeth' fel ei bwrpas ar y nodyn cyfrifo

Gellwch weld sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn ein henghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

## Beth yw 'cysylltiadau'?

Mae ffioedd cysylltiadau'n symiau o arian a dderbyniwyd gan sefydliadau eraill sydd â chyswllt ffurfiol â'ch uned. Er enghraifft, gallai undeb llafur fod â chyswllt â'ch uned.

Dylid cofnodi'r cyfanswm o arian a dderbyniwyd gan gysylltiadau o'r fath yn eich cyfrifon.

Dylai'r nodyn cyfrifo gynnwys dadansoddiad o'r symiau a dderbyniwyd gan bob cyswllt yn ystod y flwyddyn gyfrifo.

## Beth yw 'rhoddion'?

Rhodd yw arian, nwyddau neu wasanaethau a roddir i'ch uned yn ddi-dâl, neu ar delerau nad ydynt yn fasnachol. Dylech gynnwys yr holl roddion ariannol yn y categori hwn, beth bynnag fo'u gwerth.

Rhaid cofnodi bob rhodd a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan eich uned. Rhaid i chi sicrhau fod eich cofnodion yn cydymffurfio â'ch ymrwymiadau cyfreithiol ar drin rhoddion.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddangos faint o'r cyfanswm a dderbyniwyd mewn arian, a faint mewn ffyrdd eraill, fel nwyddau a gwasanaethau.

Dylech hefyd nodi'r cyfanswm rhoddion yr adroddwyd arno i ni, y Comisiwn Etholiadol, y flwyddyn honno.

Dylai rhoddion o fwy na £500 gael eu gwirio i weld a ydynt yn ganiataol. Am ragor o wybodaeth ynghylch beth yw rhodd a sut y dylech ei drin, gweler:

- Trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol

Gellwch weld sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn ein henghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

## Beth yw incwm cangen?

Gall eich uned fod â changhennau a reolir ganddi, nad ydynt yn adrodd fel unedau cyfrifo ar wahân. Er enghraifft, gall cangen fod yn gyfrifol am ymgyrchu mewn ardal arbennig. Os yw unrhyw ganghennau'n cynhyrchu is-gyfrifon, dylech gofnodi'u hincwm yn y categori hwn.

Gellwch roi'r cyfansymiau i'r holl ganghennau yn eich cyfrif incwm. Yn eich nodyn cyfrifo, dylech gofnodi faint o incwm sydd i'w briodoli i bob cangen.

Gellwch weld sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn ein henghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

## Beth yw incwm codi arian?

Incwm codi arian yw'r arian a godir o ddigwyddiadau i gefnogi'ch uned. Gall y rhain gynnwys digwyddiadau fel rafflau neu galas, neu incwm o glybiau cinio.

Dylech gynnwys unrhyw gyfraniadau a gafwyd tuag at gost y digwyddiad, gan gynnwys unrhyw nawdd.

Pan y defnyddir rhodd o nwyddau a gwasanaethau fel, er enghraifft, gwobr mewn raffl, yna dylech gynnwys ei werth yn eich cyfrif gwariant. Peidiwch â'i gynnwys fel incwm codi arian, gan y byddwch yn ei gyfrif ddwy waith.

Dylid cynnwys rhoddion o arian a dderbyniwyd mewn digwyddiad codi arian yn y categori “Rhoddion”, nid yn y categori hwn.

Yn y nodyn rhowch enghreifftiau o'r digwyddiadau a gynhaliwyd, os gwelwch yn dda, er nad oes angen rhestr gynhwysfawr.

Gellwch weld sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn ein henghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

**Pwysig**
Os y derbyniwch rodd sy'n gysylltiedig â'ch digwyddiad codi arian, dylid ei gofnodi fel 'Rhoddion'.

### Beth yw incwm buddsoddiad?

Incwm buddsoddiad yw'r cyfanswm incwm o asedau sydd ym mherchnogaeth eich uned. Er enghraifft, llog o gyfrifon banc, perchnogaeth eiddo neu ddifidendau o gyfranddaliadau.

Nid yw'n cynnwys incwm o swyddfeydd. Cynhwysir hwn mewn categori ar wahân isod.

Dylai'r nodyn cyfrifo restru'r math o fuddsoddiad, a'r incwm yn deillio ohono.

### Beth yw trosglwyddiadau i mewn?

Os yw arian yn cael ei drosglwyddo i chi o rannau eraill o'r blaid (er enghraifft, os yw'r blaid ganolog yn trosglwyddo arian i'ch uned) dylech ei gofnodi yn y categori hwn.

Dylech gofnodi'r cyfanswm a drosglwyddwyd i mewn.

Dylai'r nodyn cyfrifo roi dadansoddiad o ble y daeth y trosglwyddiadau, ac i ba bwrpas y gwnaethpwyd hynny.

Gellwch weld sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn ein henghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

### Beth yw incwm eiddo a rhent / gwasanaethau swyddfa?

Mae hwn yn cynnwys incwm a godir o swyddfa eich uned, os oes gennych un.

Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Darparu gofod swyddfa i fusnes lleol neu swyddogion etholedig.
- Darparu gwasanaethau swyddfa fel llungopïo ac arlwyo.

Os ydych yn derbyn unrhyw gyfraniadau ychwanegol uwchlaw'r raddfa fasnachol, rhaid i chi gofnodi hyn dan y categori 'rhodd'.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddarparu dadansoddiad o ffynhonnell yr incwm a'r swm a godwyd.

## Amrywiol

Os nad yw gweithgaredd neu daliad yn ffitio'i mewn i unrhyw un o'r categorïau eraill, dylech ei gofnodi yn y categori hwn.

Dylid cofnodi'r cyfanswm incwm o'r trafodion hyn yn eich cyfrifon.

Yn y nodyn cyfrifo, dylech restru'r math o weithgaredd neu daliad amrywiol, a'r incwm a godwyd ohono.

## Gwariant

Cofnodir y categorïau canlynol o dan wariant:

- Costau eiddo
- Costau swyddfa
- Gwariant cangen
- Costau staff
- Trosglwyddiadau allan
- Costau ymgyrchu
- Costau codi arian
- Taliadau cyllido a threthi
- Amrywiol

Gellwch ganfod mwy am yr hyn sy'n mynd i bob categori isod.

**Pwysig**

Dim ond eitemau yr ydych wedi talu amdanynt y dylech eu cofnodi ar eich cyfrif gwariant.

### Beth yw costau eiddo?

Costau eiddo yw'r costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw adeiladau swyddfa a ddefnyddir gan eich uned. Gallai'r costau hyn gynnwys rhent, cynnal a chadw a chostau atgyweirio.

Mae hefyd yn cynnwys unrhyw gostau tâl sefydlog sy'n gysylltiedig â'r eiddo, fel treth y cyngor.

Dylid cofnodi cyfanswm y costau hyn yn eich cyfrifon.

### Beth yw costau swyddfa?

Costau swyddfa yw costau rhedeg eich swyddfa. Mae hyn yn cynnwys biliau cyfleustodau (nwy, trydan, ffôn, rhyngrwyd) a chostau gweithredu dydd-i-ddydd fel glanhau, papur swyddfa, costau postio a chostau cyfarfodydd. Nid yw'n cynnwys costau staff, heblaw am deithio a chynhaliaeth nad ydynt yn gysylltiedig ag ymgyrchu.

Dylech gynnwys costau postio i'ch aelodau yn y categori hwn.

Gellwch weld sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn ein henghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

## Beth yw gwariant cangen?

Efallai fod gan eich uned ganghennau sydd dan ei rheolaeth, nad ydynt yn adrodd fel unedau cyfrifo ar wahân. Er enghraifft, efallai fod cangen yn gyfrifol am ymgyrchu mewn ardal arbennig. Os yw unrhyw ganghennau'n cynhyrchu is-gyfrifon, dylech gofnodi'u gwariant yn y categori hwn.

Gellwch roi'r cyfansymiau i'r holl ganghennau i'ch cyfrif gwariant.

Yn eich nodyn cyfrifo, dylech gofnodi faint o wariant sydd i'w briodoli i bob cangen.

Gellwch weld sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn ein henghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

## Beth yw costau staff?

Mae costau staff yn cynnwys cyflogau, bonysau, buddiannau, cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG), cyfraniadau pensiwn a hyfforddiant.

Dylech gofnodi cyfanswm y costau hyn yn eich cyfrifon.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddarparu:

- Y cyfanswm costau ar gyfer cyflogau,
- Y cyfanswm costau ar gyfer bonysau,
- Y cyfanswm costau ar gyfer buddiannau,
- Y cyfanswm costau ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol,
- Y cyfanswm costau ar gyfer hyfforddiant

A:

- Chost cyfartalog bob aelod o staff (trwy rannu'r cyfanswm costau yn ôl nifer y staff),
- Unrhyw daliadau pensiwn ychwanegol.

Gellwch weld sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn ein henghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

## Beth yw trosglwyddiadau allan?

Os yw arian yn cael ei drosglwyddo allan o rannau eraill o'r blaid (er enghraifft, os yw eich uned yn trosglwyddo arian i'r blaid ganolog) caiff ei ddosbarthu fel gwariant.

Dylai'r cyfanswm gwariant o'r trafodion hyn gael eu cofnodi yn y 'trosglwyddiadau allan'. Dylech hefyd gynnwys unrhyw ffioedd aelodaeth sydd wedi'u trosglwyddo allan fel rhan o ardoll.

Dylai'r nodyn cyfrifo gofnodi'r canlynol:

- Y cyfanswm am y flwyddyn o'r trosglwyddiadau yn ôl ble yr aethant (er enghraifft, enw'r blaid)
- Pwrpas y trosglwyddiad (er enghraifft, ffioedd aelodaeth)
- Y swm a drosglwyddwyd allan

## Beth yw costau ymgyrchu?

Mae costau ymgyrchu'n cynnwys gwariant ar eitemau fel hyrwyddo ymgeiswyr, neu'r blaid yn gyffredinol mewn etholiadau.

Mae hyn yn cynnwys costau y gellir eu priodoli i ddethol ymgeiswyr, ac arian a delir o unrhyw gronfa ymladd.

Ni ddylech gynnwys costau postio at aelodau plaid – dylid cofnodi'r rhain dan 'costau swyddfa' uchod.

Dylech gofnodi'r cyfanswm gwariant a wnaethpwyd gan eich uned yn eich cyfrifon

Am ragor o wybodaeth ar gofnodi gwariant ymgyrch ac etholiad, gweler:

- Trosolwg o wariant ymgyrch

## Beth yw costau codi arian?

Costau codi arian yw unrhyw wariant ar ddigwyddiadau a ddefnyddir i gefnogi eich uned, fel arlwyo neu logi lleoliad. Gall y rhain gynnwys digwyddiadau fel rafflau neu galas, neu incwm o glybiau cinio.

Dylech gofnodi'r costau ar gyfer bob digwyddiad ar wahân.

Rhaid i chi gynnwys gwerth llawn unrhyw eitemau a roddir am ddim neu ar ddisgownt nad yw'n fasnachol. Gweler Adran A am ragor o wybodaeth.

Dylech gofnodi'r cyfanswm costau codi arian yn eich cyfrifon.

## Beth yw taliadau cyllido a threthi?

Mae costau cyllido'n cynnwys llog ar fenthyciadau, costau cyffredinol a thaliadau treth ar incwm.

Wrth gofnodi llog ar fenthyciadau, dylech wneud yn siŵr nad ydych yn cynnwys unrhyw symiau a ddefnyddir i dalu'r cyfalaf benthyciad. Dylech gofnodi taliadau cyfalaf yn eich datganiad asedau a benthyciadau, fel 'Ad-daliad benthyciad cyfalaf presennol'.

Gan fod ad-daliadau benthyciad fel arfer yn gyfuniad o log a chyfalaf efallai y bydd rhaid i chi ofyn i'ch benthyciwr roi'r wybodaeth hon i chi am y flwyddyn.

Dylech gofnodi'r cyfanswm costau cyllido a threthi yn eich cyfrifon.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddangos yr eitemau o wariant ariannol, a chost bob un.

Am ragor o wybodaeth ar fenthyciadau gweler:

- Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau gwleidyddol

## Amrywiol

Os nad yw gweithgaredd neu daliad yn ffitio'i mewn i unrhyw un o'r categorïau eraill, dylech ei gofnodi yn y categori hwn.

Dylid cofnodi'r cyfanswm gwariant o'r trafodion hyn yn eich cyfrifon.

Yn y nodiadau cyfrifo, dylech restru'r math o weithgaredd amrywiol, a'r gost.

## Datganiad asedau a benthyciadau

Mae'r categorïau canlynol wedi eu cofnodi ar y datganiad asedau a benthyciadau:

- Prynu asedau
- Gwerthiant asedau
- Ad-daliad benthyciad cyfalaf presennol
- Ymrwymiadau benthyciadau ychwanegol

### Prynu asedau

Dylech gofnodi'r cyfanswm cost o unrhyw asedau a brynwyd yn eich cyfrifon.

Dylech gynnwys asedau sefydlog (fel eiddo, neu gyfrifiaduron) ac asedau cyfredol (fel arian yn y banc, neu adneuon).

Dylai'r nodyn cyfrifo restru'r asedau a brynwyd, a chost bob un.

Gellwch weld sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn ein henghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

Asedau yw pethau rydych yn berchen arnynt, fel arian yn y banc, cyfrifiaduron ac eiddo.

### Gwerthiant asedau

Dylid cofnodi cyfanswm pris unrhyw asedau a werthwyd (sefydlog neu gyfredol) yn eich cyfrifon.

Dylai'r nodyn cyfrifo restru'r asedau a werthwyd, a phris bob un.

## Ad-daliad benthyciad cyfalaf presennol

Mae hwn yn cynnwys ad-daliadau'r swm cyfalaf ar unrhyw fenthyciadau presennol. Golyga hyn nad ydych yn cynnwys unrhyw log taliadau – dylech gofnodi'r rhain yn eich cyfrif gwariant dan 'Taliadau cyllido a threthi'.

Gan fod ad-daliadau benthyciad fel arfer yn gyfuniad o log a chyfalaf mae angen i chi ofyn i'ch benthyciwr roi'r wybodaeth hon i chi am y flwyddyn.

Dylech gofnodi'r cyfanswm costau o ad-daliadau benthyciadau cyfalaf yn eich datganiad.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddangos bob math o ad-daliad benthyciad cyfalaf presennol, a'i gost.

Gellwch weld sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn ein henghraifft o ddatganiad cyfrifon yn Adran C.

## Ymrwymiadau benthyciadau ychwanegol

Dyma arian a dderbyniwyd trwy gymryd benthyciad newydd. Dyma'r swm cyfalaf yn unig ac fel arfer fe'i gelwir yn 'swm' neu 'brifswm' yn y dogfennau a ddarperir gan y benthyciwr.

Dylech gofnodi'r cyfanswm costau o unrhyw fenthyciadau ychwanegol rydych wedi eu cymryd.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddangos bob menter benthyciad newydd, a'i chost.

# Datganiad asedau a rhwymedigaethau/ categorïau mantolen

Dylid cynnwys y categorïau canlynol mewn datganiad asedau a rhwymedigaethau:

- Asedau sefydlog
- Asedau cyfredol
- Rhwymedigaethau

Os ydych yn dewis creu mantolen, dylech hefyd gynnwys 'Cronfeydd wrth gefn'.

## Asedau sefydlog

Asedau sefydlog yw eitemau a brynir ar gyfer defnydd tymor-hir gan eich plaid. Er enghraifft, eiddo, offer swyddfa, dodrefn, ynghyd â buddsoddiadau fel stociau, cyfrannau ac eiddo buddsoddiad.

Y categorïau a gofnodir dan asedau sefydlog yw:

- Eiddo
- Darnau gosod a gosodiadau
- Offer swyddfa
- Eiddo buddsoddiad
- Buddsoddiadau eraill

### Eiddo

Eiddo yw unrhyw adeilad sydd ym mherchnogaeth eich uned ac sy'n cael ei ddefnyddio i fusnes eich uned.

Dylech gofnodi cyfanswm gwerth yr eiddo.

Dylid cofnodi gwerth yr eiddo fel y pris gwreiddiol.

Os caiff yr eiddo ei ailbrisio'n broffesiynol, efallai y penderfynwch gofnodi'r gwerth newydd. Os felly, yna cynhwyswch frawddeg yn y nodyn i esbonio hyn.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddangos:

- Y gwerth ar ddechrau'r flwyddyn
- Ychwanegiadau – fel symiau cyfalaf a werir ar yr eiddo, neu eiddo newydd a brynwyd
- Gwarediadau - dylech gofnodi'r rhain ar werth yr ased
- Unrhyw ychwanegiadau yn deillio o ailbrisio
- Gwerth ar ddiwedd y flwyddyn

Gellwch weld enghraifft o sut i wneud hyn yn Adran C.

### Darnau gosod a gosodiadau

Darnau gosod a gosodiadau yw eitemau nad ydynt yn strwythurol mewn eiddo. Er enghraifft, dodrefn, carpedi a nwyddau gwynion.

Dylid cofnodi'r gwerth ar y pris prynu gwreiddiol. Ni ddylech gynnal ailbrisiad.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddangos:

- Y gwerth ar ddechrau'r flwyddyn
- Ychwanegiadau – fel symiau cyfalaf a wariwyd ar yr eiddo, neu eiddo newydd a brynwyd
- Gwarediadau - dylech gofnodi'r rhain ar werth yr ased
- Gwerth ar ddiwedd y flwyddyn

### Offer swyddfa

Mae offer swyddfa'n cynnwys cyflenwadau electronig a TG fel cyfrifiaduron, argraffyddion a ffonau.

Dylid cofnodi'r gwerth ar y pris prynu gwreiddiol. Ni ddylech gynnal ailbrisiad.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddangos:

- Y gwerth ar ddechrau'r flwyddyn
- Ychwanegiadau – fel symiau cyfalaf a wariwyd ar yr eiddo, neu eiddo newydd a brynwyd
- Gwarediadau - dylech gofnodi'r rhain ar werth yr ased
- Gwerth ar ddiwedd y flwyddyn

## Eiddo buddsoddiad

Eiddo buddsoddiad yw unrhyw eiddo sydd ym mherchnogaeth eich uned, ond na ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau plaid.

Dylech gofnodi cyfanswm gwerth yr eiddo buddsoddiad.

Dylid cofnodi'r gwerth yr eiddo ar ei bris gwreiddiol, neu'r pris a roddwyd gan brisiad proffesiynol. Os yr ailbrisir yr eiddo yn ystod y flwyddyn, dylech gynnwys brawddeg yn y nodyn yn esbonio hyn.

Os yw'r eiddo buddsoddiad yn cael ei ddal gan ymddiriedolaeth neu gwmni daliannol, dim ond y gwerth a briodolir i'ch uned chi y dylech ei gofnodi.

Er enghraifft, os yw eich uned yn berchen ar 50% o eiddo buddsoddiad, dim ond 50% o'r gwerth ddylid ei gofnodi.
Dylai'r nodyn cyfrifo ddangos:

- Cyfeiriad bob eiddo.
- Prisiad diweddaraf bob eiddo.
- Blwyddyn prisiad bob eiddo.

## Buddsoddiadau eraill

Mae buddsoddiadau eraill yn cynnwys stociau a chyfrannau, neu asedau eraill sy'n debygol o gynyddu neu ostwng yn eu gwerth.

Dylech gynnwys cyfanswm gwerth yr holl fuddsoddiadau eraill sydd ym mherchnogaeth eich uned.

Dylai gwerth y buddsoddiad gael ei gofnodi ar ei gost wreiddiol, neu'r pris a roddwyd mewn prisiad proffesiynol.

Dylid cofnodi stociau a chyfrannau ar eu gwerth marchnad ar 31 Rhagfyr.
Am bob eitem, dylai'r nodyn cyfrifo ddangos:

- Cyfeiriad
- Prisiad diweddaraf
- Blwyddyn prisio

Nid oes angen i chi gynnwys manylion gwirioneddol y stociau a chyfrannau sydd ym mherchnogaeth eich uned.

## Asedau cyfredol

Asedau cyfredol yw asedau a ddefnyddir i ariannu gweithgareddau dydd-i-ddydd a thalu treuliau parhaus eich uned.

Mae asedau cyfredol yn cynnwys 'arian mewn llaw' ac 'yn y banc', yn ogystal ag asedau eraill nad ydynt wedi'u clymu mewn buddsoddiadau tymor hir. Mewn geiriau eraill, asedau cyfredol yw unrhyw beth o werth y gellir ei drosi'n hawdd yn arian.

Mae arian mewn llaw ac yn y banc yn cynnwys yr holl arian mân a chyfrifon cyfredol a chadw.

Dylid cynnwys cyfanswm gwerth yr arian mân a chyfrifon cyfredol a chadw sy'n cael eu dal gan yr uned.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddangos arian mân, y mathau o gyfrifon cyfredol a chadw, a'r symiau a ddelir ym mhob math.

Cyfrifon cadw yw cyfrifon buddsoddiad tymor hirach, ble mae'n anoddach cael at yr arian. Delir yr adnau am dymor sefydlog, neu dim ond trwy roi rhybudd y gellir tynnu arian allan, neu drwy golli llog ar y cyfrif.

## Rhwymedigaethau

Rhwymedigaethau yw dyledion sydd gennych. Mae enghreifftiau'n cynnwys benthyciadau, cardiau credyd ac arian sy'n ddyledus i gyflenwyr.

Mae'r categori 'Benthyciadau sy'n ddyledus' yn cynnwys unrhyw arian sy'n ddyledus ar ddiwedd y cyfnod ariannol.

Dylech gynnwys cyfanswm gwerth unrhyw fenthyciadau sy'n ddyledus gan yr uned.

Nid yw benthyciadau sy'n ddyledus yn cynnwys gorddrafftiau neu daliadau cyllido fel llog. Dylech gofnodi'r rhain yn y cyfrif gwariant.

Dylai'r nodyn cyfrifo ddangos dadansoddiad o fenthyciadau yn unol â'r:

- Benthyciadau sydd **wedi** eu hadrodd i ni, y Comisiwn Etholiadol.
- Benthyciadau sydd **heb** eu hadrodd i ni
- Benthyciadau sefydliad ariannol.

- Benthyciadau eraill.

## Cronfeydd wrth gefn (Opsiynol)

Dan safon cyfrifo arian, nid oes adran cronfeydd wrth gefn.

Fodd bynnag, os ydych yn dymuno defnyddio adran 'Cronfeydd wrth gefn', dylai gynnwys y canlynol:

- Y Gronfa Gronedig
- Ailbrisio Asedau
- Cronfeydd Eraill

### Y Gronfa Gronedig

Y Gronfa Gronedig (neu'r Gronfa Gyffredinol) yw cyfanswm holl ddiffyg a swrplws blynyddoedd blaenorol a gynhyrchwyd o'r cyfrif incwm a gwariant

Dylech nodi'r balans agoriadol am y flwyddyn (sef balans cau y flwyddyn flaenorol).

Yna dylech ychwanegu'r swrplws neu ddiffyg a gynhyrchwyd o weithgareddau'r flwyddyn o'r cyfanswm cyfrifon incwm a gwariant.

### Ailbrisio Asedau

#### Addasiadau gwerth ased

Efallai y bydd angen i chi wneud addasiadau ar gyfer y canlynol:

- Enillion neu golledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau eraill, fel cyfrannau sydd wedi newid gwerth.

  Dylech gynnwys unrhyw gynnydd/gostyngiad mewn gwerth hyd yn oed os nad ydynt wedi eu gwerthu.

- Elw neu golled ar warediad asedau, fel gwerthu ased am unrhyw beth ond ei werth cofnodedig

Dylid cyfrifo'r rhain ac ychwanegu'r effaith (os yn enilliad) neu ei dynnu (os yn golled) o'r Gronfa Gronedig.

## Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn

Os yw eich prif eiddo'n cael ei ailbrisio'n broffesiynol, dylid cofnodi swm y cynnydd yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn a chofnodi'r gwerth marchnad newydd i'r eiddo.

Cedwir y balans ar y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn hyd nes y ceir gwared â'r eiddo, a chyfrifir unrhyw elw neu golled ar y gwerthiant.

> Peidiwch â chynnwys eiddo buddsoddiad yn y gronfa ailbrisiant wrth gefn. Dylid cynnwys y rhain fel 'Enilliad/Colled Heb ei Wireddu' yn yr Addasiadau Gwerth Ased

## Cronfeydd eraill

Gall rhai unedau cyfrifo benderfynu creu cronfeydd ychwanegol wedi eu priodoli i bwrpasau penodol. Gallai'r rhain gynnwys cronfeydd ymgyrch, cronfeydd ailwampio, neu gronfeydd prosiect adeiladu.

Mae'r cronfeydd hyn yn cynnwys y swrplws a gynhyrchwyd o'r Cyfrif Incwm a Gwariant ond a ddyrannwyd i'r cronfeydd penodol hyn yn hytrach na'r 'Gronfa Gronedig' gyffredinol neu trwy ailddyrannu arian o'r Gronfa Gronedig.

# Adran C - Enghraifft o ddatganiad cyfrifon

Cofiwch na fydd yr holl gategorïau yn yr enghraifft yn berthnasol i chi.

Enw'r UG:

Datganiad Cyfrifon

Dyddiad y datganiad: 31 Rhagfyr 2011

1. Enghraifft o Ddatganiad Cyfrifon: cyfrifo arian

| | |
|---|---|
| Datganiad Cyfrifon Uned Gyfrifo Ardal Leol y Blaid Enghreifftiol am y flwyddyn yn gorffen 31ain Rhagfyr 2011 | |
| **Gwybodaeth weinyddol** | |
| Cyfeiriad cofrestredig | |
| Cyfeiriad y blaid ganolog fel cyfeiriad cofrestredig | |
| Swyddogion etholedig | |
| Enw | Enw |
| Daniel McKenzie | Daniel McKenzie |
| 43 Cynghorwyr Ardal Leol | |
| Swyddogion Cyfrifol<br>I bwrpasau'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol Etholiadau a Refferenda 2000 y swyddogion cyfrifol yw: | |
| Enw | Swydd |
| Ms Adams | Trysorydd Cofrestredig |
| Mr Bath | Dirprwy Drysorydd Cofrestredig |
| | |
| **Gweithgareddau gwleidyddol** | |
| Trosolwg o weithgareddau gwleidyddol | |
| Ar ôl yr ymdrechion anferth y llynedd yn ymladd etholiad cyffredinol, unwaith eto galwyd ar ein haelodau i ymgyrchu ar gyfer etholiadau lleol mewn nifer o wardiau<br><br>Eleni buom yn llwyddiannus yn dal ein pedair sedd bresennol. | |

## Canghennau

Mae Uned Gyfrifo Ardal Leol y Blaid Enghreifftiol yn gyfrifol am dair o ganghennau. Cynhwyswyd yr incwm a dderbyniwyd a'r gwariant a wnaed gan y canghennau hynny yng nghyfrifon yr uned.

- Ardal Leol
- Ger y Comin
- Bryn Cyfagos

# Gweithgareddau Ariannol

## Trosolwg o incwm

Cynyddodd incwm aelodaeth oherwydd bod aelodau newydd yn ymuno, a ffioedd aelodaeth uwch. Hefyd mae codi arian a rhoddion i fyny diolch i waith clodwiw y pwyllgor codi arian.

Cynyddodd incwm o'n Ymddiriedolaeth Eiddo ychydig gyda'r angen am lai o waith atgyweirio adeiladau.

Ein portffolio cyfrannau wedi gweithio'n dda ac yn dangos enilliad cyfalaf ar y flwyddyn gan berfformio'n well na'r farchnad stoc.

## Trosolwg o wariant

### Gwariant parhaus

Mae'r Pwyllgor wedi gweithio'n galed i leihau gorbenion cyffredinol y swyddfa gyda mwy o ddefnydd o e-bost ar gyfer gohebiaeth rhyng-bleidiol. Rydym yn hyderus fod costau gweinyddol y blaid yn cael eu rheoli'n dda.

Rydym wedi parhau i uwchraddio ein cyfleusterau TG wrth brynu offer newydd

## Trosolwg o'r fantolen

Ar ddechrau'r flwyddyn cawsom ailbrisio'r prif adeilad ac mae hwn yn dangos ailbrisiant sylweddol o'r flwyddyn flaenorol.

# Nodiadau cyfrifo

## Confensiwn cyfrifo

Mae'r Datganiad Cyfrifon hwn yn defnyddio cyfrifo arian. Y llynedd paratowyd y cyfrifon ar sail groniadau. Nid yw'r ffigyrau a ddangoswyd y llynedd wedi eu hailgyfrifo

| Cyfrif incwm a gwariant | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | 2011 | 2010 |
| Incwm | | | |
| Aelodaeth | 1 | 20,166 | 18,787 |
| Cysylltiadau | 2 | 16,739 | 14,200 |
| Rhoddion | 3 | 41,750 | 35,100 |
| Incwm cangen | 4 | 9,500 | 8,889 |
| Incwm codi arian | 5 | 28,810 | 24,470 |
| Incwm buddsoddiad | 6 | 14,487 | 15,532 |
| Trosglwyddiadau i mewn | 7 | 17,423 | 8,923 |
| Incwm eiddo a rhent/Gwasanaethau swyddfa | 8 | 19,763 | 19,575 |
| Amrywiol | 9 | - | - |
| | | | |
| Cyfanswm incwm | | **168,638** | **145,476** |
| Gwariant | | | |
| Adeiladau | | 7,223 | 9,650 |
| Costau swyddfa | | 31,576 | 30,759 |
| Gwariant cangen | 4 | 7,685 | 7,687 |
| Costau staff | 10 | 20,096 | 18,997 |
| Trosglwyddiadau allan | 7 | 6,206 | 7,406 |
| Costau ymgyrchu | | 73,400 | 55,000 |
| Costau codi arian | 5 | 8,550 | 9,420 |
| Taliadau cyllido a threthi | 11 | 1,375 | 1,370 |
| Amrywiol | 9 | - | 2,500 |
| | | | |
| Cyfanswm gwariant | | **156,111** | **142,789** |
| Diffyg/swrplws | | 12,527 | 2,687 |

| Datganiad asedau a benthyciadau | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | 2011 | 2010 |
| | | | |
| Prynu Asedau | 12 | 1,500 | 10,000 |
| Gwerthiant Asedau | 12 | (1,000) | |
| Ad-dalu benthyciadau cyfalaf presennol | 13 | 5,000 | 5,000 |
| Ymrwymiadau benthyciadau ychwanegol | 13 | - | - |
| **(Incwm)/Gwariant Net ar Asedau/Rhwymedigaethau** | | **5,500** | **15,000** |

| Mantolen | | | |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | 2011 | 2010 |
| Asedau sefydlog | | | |
| Eiddo | 14 | 325,000 | 250,000 |
| Darnau gosod a gosodiadau | 14 | 37,000 | 37,000 |
| Offer swyddfa | 14 | 16,000 | 17,500 |
| Eiddo buddsoddiad | 6 | 325,000 | 325,000 |
| Buddsoddiadau eraill | 6 | 25,757 | 23,986 |
| | | | |
| Cyfanswm asedau sefydlog | - | 728,757 | 653,486 |
| Asedau cyfredol | | | |
| Arian mewn llaw ac yn y banc | 6 | 30,133 | 23,106 |
| | | | |
| Cyfanswm asedau cyfredol | - | 30,133 | 23,106 |
| Rhwymedigaethau | | | |
| Benthyciadau sy'n ddyledus | 13 | (15,000) | (20,000) |
| | | | |
| Cyfanswm rhwymedigaethau | - | (15,000) | (20,000) |
| | | | |
| Cyfanswm Asedau/(Rhwymedigaethau) Net | - | 743,890 | 656,592 |
| | | | |
| Y Gronfa Gronedig Cariwyd ymlaen | | 656,592 | 658,905 |
| Swrplws/(Diffyg) | | 12,527 | 2,687 |
| Addasiadau gwerth ased | 16 | (229) | (5,000) |
| Y Gronfa Gronedig Cario drosodd | | 688,890 | 656,592 |
| Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 14 | 75,000 | - |
| Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn | | 743,890 | 656,592 |

Nodiadau i'r Cyfrifon:

Nodyn 1 Nodyn cyfrifo 'Aelodaeth':

| Disgrifiad | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Ffioedd aelodaeth a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan yr uned gyfrifo | 13,100 | 11,522 |
| Ffioedd aelodaeth a dderbyniwyd drwy/ a dalwyd i'r blaid ganolog | 7,066 | 7,265 |
| Cyfanswm Aelodaeth | 20,166 | 18,787 |

Nodyn 2 Nodyn cyfrifo 'Cysylltiadau'

| Cyswllt | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Undeb ABC | 9,485 | 7,658 |
| Cymdeithas XYZ | 7,254 | 6,542 |
| Cyfanswm | 16,739 | 14,200 |

Nodyn 3 Nodyn cyfrifo 'Rhoddion'

| Rhoddion | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Rhoddion arian | 41,000 | 34,650 |
| Tybiannol/ 'Rhoddion mewn nwyddau' | 750 | 450 |
| Cyfanswm | 41,750 | 35,100 |

Yn ystod y flwyddyn cafodd yr uned roddion o £22,000 a oedd yn adroddadwy i'r Comisiwn Etholiadol.

Mae cyfanswm y ffigwr rhodd uchod (£41,750) yn fwy na hyn, oherwydd y rhoddion a dderbyniwyd a oedd islaw trothwy adrodd PPERA o £1,500

Nodyn 4 Nodyn Cyfrifo Incwm a Gwariant Cangen

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Gwariant | Incwm | Gwariant |
| Cangen Ardal Leol | 3,000 | 1,250 | 2,700 | 1,300 |
| Cangen Ger y Comin | 3,600 | 4,569 | 3,250 | 4,152 |
| Cangen Bryn Agos | 2,900 | 1,866 | 2,939 | 2,235 |
| Cyfanswm | 9,500 | 7,685 | 8,889 | 7,687 |

Nodyn 5

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau codi arian drwy'r flwyddyn gan gynnwys y Ffair Haf, Helfa Drysor a Chinio Nadolig. Rheolwyd y costau'n dda a llwyddasom i gynhyrchu a chynyddu incwm o £4,340 gyda gostyngiad mewn cost o £870.

Nodyn 6: Incwm Buddsoddiad

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| Incwm Buddsoddiad o Asedau Sefydlog a Buddsoddiadau Eraill | | | | |
| | Gwerth ar 31/12/11 | Difidend a dderbyniwyd | Gwerth ar 31/12/10 | Difidend a dderbyniwyd |
| Daliadau cyfrannau | 25,757 | 604 | 23,986 | 713 |
| Enilliad/(Colled) Cyfalaf | | 1,771 | | - |

| | 2011 | | | 2010 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo Ymddiriedolaeth | Gwerth Ased Net yr Ymddiriedolaeth ar 31/12/11 | Gwerth daliad 50% | Incwm a dderbyniwyd | Gwerth Ased Net yr Ymddiriedolaeth ar 31/12/10 | Gwerth daliad 50% | Incwm a dderbyniwyd |
| Enw'r Ymddiriedolaeth | 650,000 | 325,000 | 13,626 | 650,000 | 325,000 | 14,599 |

| Incwm buddsoddiad o asedau cyfredol: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrifon Banc | Balans ar 31/12/11 | Llog a dderbyniwyd | Balans ar 31/12/10 | Llog a dderbyniwyd |
| Cyfrif cadw | 15,426 | 234 | 10,426 | 167 |
| Cyfrif cyfredol | 14,707 | 23 | 12,680 | 53 |
| Cyfanswm | £30,133 | £257 | 23,106 | 220 |

Nodyn 7 – Nodyn cyfrifo 'Trosglwyddiadau'

| Trosglwyddiad o/i | Pwrpas y Trosglwyddiad | Swm | |
|---|---|---|---|
| | | Dod i mewn | Dod i mewn |
| Plaid ganolog | Ffioedd aelodaeth a dderbyniwyd yn ganolog ynghyd â symiau a gasglwyd yn ganolog sydd wedi'u dosbarthu. Symiau ychwanegol a dderbyniwyd i ymgyrch leol. | 17,423 | |
| Plaid ganolog | Ardoll aelodaeth | | 6,206 |
| Cyfanswm | | 17,423 | 6,206 |

Nodyn 8 Incwm Eiddo a Rhent/Gwasanaethau swyddfa

| Ffynhonnell | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Rhent gofod swyddfa XYZ Cyf | 12,275 | 12,250 |
| Rhent gofod swyddfa a gwasanaethau i AS | 7,488 | 7,325 |
| Cyfanswm | 19,763 | 19,575 |

Nodyn 9: Incwm a Gwariant Amrywiol

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Gwariant | Incwm | Gwariant |
| Cyngor cyfreithiol | | | | 2,500 |
| Cyfanswm | | | | 2,500 |

Nodyn 10 Costau Cyflogau

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Costau cyflogau | 19,154 | 18,138 |
| Costau Yswiriant Cenedlaethol/Nawdd Cymdeithasol | 942 | 859 |
| Cost hyfforddiant | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **20,096** | **18,997** |
| | 2011 | 2010 |
| Nifer o staff | 2 | 2 |
| Cost cyfartalog | 10,048 | 9,498 |

Nodyn 11: Taliadau Cyllido, Ad-Dalu Benthyciadau a Threthi

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Llog yn daladwy ar forgais | 1,250 | 1,250 |
| Llog gorddrafft | 125 | 120 |
| **Cyfanswm** | **1,375** | **1,370** |

Nodyn 12 Symudiadau arian mewn perthynas â Gwerthu/
Prynu Asedau

| Eitem | Income | Expenditure |
|---|---|---|
| Prynu Offer TG | | 1,500 |
| Gwerthiant Offer TG | 1,000 | |
| **Cyfanswm** | **1,000** | **1,500** |

Nodyn 13 Arian a wariwyd ar ad-dalu benthyciadau neu a gynhyrchwyd gan fenthyciadau newydd

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Swm yn ddyledus ar ddechrau'r flwyddyn | 20,000 | 25,000 |
| Ad-dalu Cyfalaf | 5,000 | 5,000 |
| Benthyciadau/morgeisi newydd | 0 | 0 |
| Swm yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn | 15,000 | 20,000 |

Nodyn 14 Asedau Sefydlog

| | Eiddo | Darnau gosod a gosodiadau | Technoleg Gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar ddechrau'r flwyddyn | 250,000 | 37,000 | 17,500 | 304,500 |
| Ychwanegiadau | - | - | 1,500 | 1,500 |
| Gwarediadau | - | - | (3,000) | (3,000) |
| Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 75,000 | | | 75,000 |
| Gwerth ar ddiwedd y flwyddyn | 325,000 | 37,000 | 16,000 | 378,000 |

Yn ystod y flwyddyn penderfynwyd ailbrisio'r prif adeilad i sicrhau fod digon o atebolrwydd yswiriant arno. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn gwerth o £250,000 i £325,000, a nodir yn awr fel gwerth yr eiddo yn y cyfrifon.

Nodyn 15: Elw/(Colled) ar Waredu Asedau

| Eitem | NBV ar ddyddiad gwaredu | Elw gwerthiant | Elw/(Colled) ar warediad |
|---|---|---|---|
| Gwerthiant Offer TG | 3,000 | 1,000 | (2,000) |
| Cyfanswm | | | (2,000) |

Nodyn 16 Addasiadau Gwerth Asedau

| Eitem | Nodyn | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Enilliad/(Colled) Heb ei Wireddu ar fuddsoddiadau | 6 | 1,771 |
| Elw/(Colled) ar warediad asedau sefydlog | 15 | (2,000) |
| Cyfanswm | | (229) |

| Datganiad | | |
|---|---|---|
| Rwyf yn cadarnhau fod y Datganiad Cyfrifon uchod wedi'i baratoi yn unol â'r canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol ac mae'n gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Yn ychwanegol cadarnhaf fod y cyfrifon hyn wedi'u cymeradwyo gan Bwyllgor Rheoli'r Uned Gyfrifo: | | |
| Llofnod | Swydd | Dyddiad |
| | Trysorydd Cofrestredig | |

# Sut y gallwn helpu

Gellwch ganfod rhagor o wybodaeth yn y dogfennau canllaw rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gellwch weld yr ystod cyfan o ganllawiau ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gellwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch os gwelwch yn dda.
Galwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  mailto:infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – anfonwch e-bost atom ar pef@electoralcommission.org.uk

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk